

Cwestiwn Ymchwil: I ba raddau mae dysgu sy'n cael ei arwain gan blant yn dylanwadu ar ar ymgysylltiad plentyn?

Mae plant yn aml yn arwain eu dysgu eu hunain trwy chwarae (Adran Addysg, 2012). Mae adroddiad ymarfer effeithiol gan Estyn yn dangos sut mae dysgu trwy chwarae yn cefnogi dysgu annibynnol plant (Estyn, 2019). Un elfen hanfodol o'r Cyfnod Sylfaen yw dysgu trwy chwarae (Llywodraeth Cymru, 2018). Hefyd yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru mae gweithgareddau ffocws a darpariaeth barhaus yn digwydd. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn fel y gweithgareddau yn y ddarpariaeth barhaus yn weithgareddau a arweinir gan blant. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer gweithgareddau a arweinir gan blant a gweithgareddau a arweinir gan ymarferwyr gyda chydbywysedd priodol rhwng y ddau (Estyn, 2010). Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r dasg ymchwil hon gan fod y cyfranogwyr yn dod o ddosbarth blwyddyn un. Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru 2008 yn pwysleisio y dylai plant rhwng tair a saith oed brofi cydbwysedd o weithgareddau y tu mewn a'r tu allan sy'n weithgareddau a ysbrydolwyd gan blant ac a arweinir gan ymarferwyr (APADGOS, 2008a). Gellir ystyried chwarae addysgol strwythuredig fel y gweithgareddau darpariaeth parhaus yn yr ystafell ddosbarth, hyd yn oed os mai'r ymarferwyr sy'n ysgogi'r chwarae hyn, fel dysgu dan arweiniad plant (APADGOS, 2008b). Gall gweithgareddau fel y rhain ddefnyddio'r ymarferydd fel hwylusydd a gallu darparu sgaffaldiau, cefnogaeth a gallant fodlu ymddygiad penodol a ddymunir (Maynard, et al., 2013).

Dywed yr Athro David Geary "yn syml nid yw dysgu dan arweiniad plant yn gweithio" (Severs, 2020). Awgryma Geary y bydd gwybodaeth sylfaenol yn ehangu'n naturiol yn wahanol i wybodaeth eilaidd cyhyd â bod yr amgylchedd o amgylch y plant yn caniatáu i blant archwilio, chwarae a chael rhyngweithio cymdeithasol (Severs, 2020). Fodd bynnag, mae eraill yn lleisio'r farn ei bod hi'n anodd cynllunio a gweithredu dysgu a gychwynnir gan blant yn enwedig ym mlynnyddoedd cynnar addysg. Cynniga Barber chwe cham sy'n galluogi dysgu dan arweiniad plant i fod yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwrando'n ofalus ar y plant, sicrhau bod yr ymarferydd yn ymuno â chwarae'r plant er mwyn i blant gymryd rhan mewn rhyngweithiadau ystyrlon, sicrhau bod syniadau plant yn cael eu gwerthfawrogi gan yr ymarferwyr, sicrhau bod yr ymarferwyr yn rhoi'r cyfanswm cywir o gefnogaeth i'r plant, sicrhau bod yr ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio sgiliau datrys problemau, ac yn olaf sicrhau bod yr ymarferwyr yn darparu canmolïaeth ac atgyfnerthiad cadarnhaol ynghyd ag adborth effeithiol i'r plant (Barber, 2017). O ganlyniad i COVID-19, mae gweithgareddau dan arweiniad plant yn dod yn fwy poblogaidd yn arbennig wrth ddysgu yn y cartref. Gan y gall addysgu byw gyda phlant iau amlygu materion diogelwch plant, gellir ystyried dysgu dan arweiniad plant yn ffordd fwy addas o ddysgu tra bo plant yn dysgu o'u cartrefi (NEU, 2020).